Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Penodi Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **15 Ionawr 2014** |
| **BY** | **Lesley Griffiths AC**<br>**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth** |

Yn ddiweddar, rhoddais ddatganiad ar y cynnydd arbennig sy'n cael ei wneud gan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru newydd yn dilyn adolygiad Mathias. Yn y datganiad hwnnw, nodais fod Llywodraeth Cymru yn y broses o recriwtio Prif Weithredwr parhaol ar y Comisiwn yn dilyn cyfnod o Ysgrifenyddion dros dro.

Gallaf roi gwybod i Aelodau fy mod wedi ystyried argymhelliad panel dewis ymgeiswyr a sefydlwyd i ddewis Prif Weithredwr y Comisiwn. Ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Comisiwn, gallaf gytuno ag argymhelliad y panel ac rwyf wedi penodi Steve Halsall yn Brif Weithredwr y Comisiwn.

Hyderaf y bydd profiad Mr Halsall yn hynod werthfawr wrth i'r Comisiwn gyflawni ei waith o dan y fframwaith cyfreithiol newydd a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.